Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Bodawen
# Post Office Lane
# Dinbych
# LL16 3UN

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/03/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Bodawen yn Ninbych yn ardal awdurdod lleol Sir Ddinbych. Lleolir y cylch mewn hen ysgoldŷ capel yn Ninbych

Mae'r lleoliad wedi cofrestru i dderbyn hyd at 26 o blant rhwng dwy a hanner a thair oed ym mhob sesiwn. Ar hyn o bryd, mae 15 o blant tair oed yn mynychu'r grŵp, y mae 13 ohonynt wedi'u hariannu gan yr awdurdod lleol.

Saesneg yw prif iaith llawer o'r plant a daw lleiafrif o aelwydydd lle y mae un neu'r ddau riant yn siarad Cymraeg. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a dysgu yn y feithrinfa. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad ar agor am bum bore a phedwar prynhawn yr wythnos.

Caiff y lleoliad ei staffio gan arweinydd a'i dirprwy a dau gymhorthydd rhan amser. Mae ganddynt gymwysterau priodol sy'n gysylltiedig ag addysg y blynyddoedd cynnar. Fe wnaeth yr arweinydd ymgymryd â'i swydd ym Medi 2003.

Cafodd y grŵp ei arolygu ddiwethaf gan Estyn yn Chwefror 2009 a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Hydref 2013.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae medrau cyfathrebu a rhifedd y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n dda yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad
- Mae ethos croesawgar a hapus yn y lleoliad
- Mae'r plant yn ymgartrefu'n gyflym
- Mae'r lleoliad yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu ysgogol
- Mae ymarferwyr yn defnyddio'r lle sydd ar gael yn effeithiol ac mae'r adnoddau o ansawdd da
- Mae'r lleoliad yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd da i'r plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r arweinwyr eisiau'r gorau i'r plant a'r lleoliad
- Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm
- Mae gan arweinwyr ffocws cadarn ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant
- Mae ymarferwyr yn cael hyfforddiant priodol ac yn defnyddio cyngor yn dda i wella deilliannau i blant
- Mae ystod dda o bartneriaethau effeithiol gan y lleoliad

## Argymhellion

A1 Gwneud yn siŵr bod cynllunio'n adeiladu ar ddysgu blaenorol plant ac yn datblygu medrau'n systematig

A2 Defnyddio systemau ar gyfer asesu i godi safonau trwy nodi cryfderau plant a'u meysydd i'w gwella yn well

A3 Sicrhau eich bod yn mynd i'r afael â'r mater sy'n cael effaith anffafriol ar les plant
A4 Gwella'r cyfleoedd i blant ddysgu am gynaliadwyedd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu.

Mae medrau cyfathrebu'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n dda. Maent yn cael pobl i'w deall yn gyson, naill ai drwy eiriau neu ystumiau, er enghraifft wrth ofyn am help i wisgo ffedog yn yr ardal beintio. Maent yn gwrando ac yn ymateb yn dda yn ystod gweithgareddau grŵp ac yn mwynhau ymuno â chaneuon a cherddi. Mae mwyafrif ohonynt yn cynnal sgyrsiau syml yn eu mamiaith gyda'u ffrindiau ac oedolion; er enghraifft, siaradant yn frwdfrydig â'i gilydd yn y tŷ bach twt ac yn ystod chwarae rôl yn ardal y siop anifeiliaid anwes. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd priodol o'u man cychwyn, wrth ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Gymraeg. Maent yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau yn y Gymraeg. Maent yn dechrau defnyddio geiriau syml yn annibynnol, er enghraifft bwydo 'llaeth' i'r anifeiliaid yn yr ardal chwarae rôl. Mae nifer bach iawn o blant yn hyderus wrth gyfathrebu yn estynedig ar lafar yn y Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn arbrofi â gwneud marciau ac ysgrifennu, ac yn mwynhau hyn; er enghraifft, gwnânt gylchoedd mewn ewyn eillio ac ysgrifennant ar y byrddau sialc yn y sied y tu allan. Datblygant ddealltwriaeth dda bod diben i ysgrifennu, er enghraifft trwy wneud nodiadau o sgwrs ffôn yn y 'swyddfa'. Mae lleiafrif o blant yn gwneud marciau gyda rheolaeth gynyddol, er enghraifft, wrth dynnu lluniau o'u rhieni. Mae ychydig o blant mwy abl yn dechrau ysgrifennu eu henw. Mae lleiafrif o blant yn adnabod eu henw wrth hongian eu cot yn y bore.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfrif yn hyderus yn Gymraeg a Saesneg. Er enghraifft, maent yn cyfrif sawl tro y mae tegan rhaglenadwy yn symud. Maent yn cymryd rhan yn dda mewn dysgu caneuon a cherddi rhif, er enghraifft, wrth ganu am y 'pump robin goch' yn yr ardal awyr agored. Mae llawer o blant yn trefnu gwrthrychau cyfarwydd yn ôl lliw neu siâp. Er enghraifft, maent yn trefnu dinosoriaid mewn grwpiau lliw gwahanol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn nodi siapiau dau ddimensiwn yn gywir; er enghraifft, maent yn adnabod bod eu bisgedi amser byrbryd yn rhai sgwâr.

Mae medrau corfforol llawer o'r plant yn datblygu'n dda. Maent yn dringo'r ysgol i'r sleid ac yn taflu peli at darged gyda rheolaeth gynyddol. Mae ychydig o blant yn dechrau datrys problemau a datblygu eu medrau meddwl, fel dod i ddeall sut i ddefnyddio'r glicied ar y sied tu allan a cheisio dyfalu beth allant ei deimlo mewn blwch cyffwrdd.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn hapus i ddod i'r lleoliad, ac yn ymdawelu'n gyflym ac yn barod i'w tasgau. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu a dangosant fwynhad a dyfalbarhad yn ystod y sesiynau. Maent yn ffurfio perthnasoedd da gyda'r oedolion yn y lleoliad a gyda'i gilydd ac maent yn barod i ofyn am help pan fo angen.

Mae ymddygiad bron pob un o'r plant yn dda ac maent yn gyfarwydd iawn ag arferion y lleoliad. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cydweithio'n dda ac yn dysgu rhannu ac aros eu tro yn briodol. Maent yn cymryd gofal da o'r adnoddau yn y lleoliad, gan eu defnyddio'n briodol. Mae llawer o'r plant yn ymuno â'r gwaith o dacluso ar ddiwedd y sesiwn, gyda chymorth oedolion.

Yn ystod amser byrbryd, mae bron pob un o'r plant yn dangos eu bod yn dysgu medrau cymdeithasol gwerthfawr. Eisteddant gyda'i gilydd yn hapus, gan rannu a siarad â'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol defnyddiol. Er enghraifft, maent yn arllwys eu diodydd eu hunain ac yn taenu menyn ar y craceri heb gymorth oedolyn.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis gweithgareddau chwarae yn hyderus ac yn hoelio sylw ar dasg yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu buddiol i blant, dan do a thu allan. Mae ymarferwyr yn cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio gweithgareddau gwerth chweil ar draws holl feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen, sy'n ennyn diddordeb mwyafrif y dysgwyr. Fodd bynnag, nid ydynt yn arfarnu'r cynllunio'n ddigon da i adeiladu'n systematig ar yr hyn y mae plant yn ei ddysgu nac i nodi'r camau nesaf y mae angen iddynt eu cymryd.

Cymraeg yw iaith swyddogol y lleoliad ac mae ymarferwyr yn gweithio'n galed i ddatblygu medrau cyfathrebu'r plant. Gwnânt ddefnydd da o gyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth a medrau llafar plant yn ystod arferion rheolaidd, er enghraifft yn ystod amser byrbryd. Defnyddiant ganeuon a cherddi yn briodol i helpu i sefydlu patrymau iaith a geirfa. Mae plant yn dysgu am dreftadaeth Cymru yn llwyddiannus pan fyddant yn gwisgo ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi ac yn canu rhigymau traddodiadol.

Mae cynlluniau wythnosol yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i blant ddatblygu eu medrau gwrando trwy gemau a chyfleoedd penodol i ddilyn cyfarwyddiadau, er enghraifft wrth raglennu tegan electronig. Mae cyfleoedd difyr i ddatblygu medrau gwneud marciau'r plant. Mae plant yn cael sawl cyfle i ddatblygu eu hiaith drwy chwarae rôl ddychmygus. Mae ymarferwyr yn darparu cornel darllen cysurus ac yn newid y llyfrau'n rheolaidd i gyd-fynd â'u thema. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhoi digon o gyfle i'r plant glywed storïau'n cael eu darllen iddynt.

Mae'r lleoliad yn darparu medrau rhifedd plant yn llwyddiannus trwy ddarparu llawer o gyfleoedd cyfrif, didoli a pharu. Er enghraifft, maent yn annog plant i gyfrif nifer y symudiadau a wneir gan degan rhaglenadwy a sawl robin goch sydd wedi'u cuddio yn yr ardal awyr agored. Maent yn dechrau datblygu medrau meddwl a datrys problemau plant yn briodol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant i ddyfalu beth sy'n cuddio mewn bocs.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn brofiadol ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae gan y lleoliad arferion wedi'u sefydlu'n dda ac, o ganlyniad, mae'r plant yn teimlo'n ddiogel. Mae gan ymarferwyr berthynas waith gadarnhaol gyda'r holl blant ac maent yn rheoli ymddygiad mewn ffordd gymwys.

Mae'r ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn dda ar gyfer y plant. Mae hyn yn cefnogi plant sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith yn effeithiol, yn ogystal ag ymestyn geirfa plant sydd â mwy o ddealltwriaeth. Mae'r ymarferwyr yn cynnig amgylchedd ysgogol a difyr dan do a thu allan, sy'n annog cyfranogiad a mwynhad plant. Maent yn cydweithio'n dda fel tîm, ac mae newidiadau diweddar i drefniadau amser grŵp wedi gwella cyfleoedd i blant gyfrannu a mynegi eu barn. Fodd bynnag, weithiau, mae sesiynau grŵp yn rhy hir ac mae plant yn colli diddordeb o ganlyniad. Yn ogystal, nid yw ymarferwyr bob amser yn rhoi digon o amser i blant ddysgu trwy ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae ymarferwyr yn aml yn holi plant i gadarnhau eu dealltwriaeth. Fodd bynnag, maent yn llai llwyddiannus wrth ymestyn eu medrau meddwl a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddatrys problemau a dysgu drostynt eu hunain.

Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi cyflwyno system asesu newydd i helpu i nodi anghenion plant, ac olrhain cynnydd plant unigol. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i fwydo i lyfrau asesu unigol sy'n cofnodi profiad plant ar draws pob maes dysgu. Maent yn dechrau defnyddio'r asesiadau hyn i gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol sy'n bodloni anghenion a diddordebau plant. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae hyn ac mae'n rhy gynnar eto i weld ei heffaith ar y safonau a gyflawnir gan blant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau da ar waith i hybu byw'n iach. Mae plant yn cael byrbryd maethlon ac yn cael cyfleoedd buddiol i gael ymarfer corfforol dan do a thu allan.

Mae'r lleoliad yn annog plant i feithrin perthnasoedd cadarnhaol â'i gilydd ac mae'n meithrin goddefgarwch a pharch yn llwyddiannus. Mae cyswllt dyddiol â rhieni i fwydo unrhyw bryderon yn ôl wrth iddynt godi eu plant o'r cylch.

Mae ymarferwyr yn annog plant i rannu a chymryd eu tro a gofalu am adnoddau yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r holl blant yn cael eu hannog i helpu i dacluso ar ddiwedd y sesiwn.

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol. Er enghraifft, caiff plant

eu hannog i gymryd rhan mewn gweddi i ddiolch am eu bwyd. Cânt eu hannog i ddod yn annibynnol yn effeithiol, trwy cheisio gwisgo'u ffedogau a'u cotiau eu hunain. Mae ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliannau gwahanol, er enghraifft dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Fodd bynnag, nid yw ymarferwr yn rhoi digon o gyfleoedd i blant ddeall am ddatblygu cynaliadwy.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae systemau priodol ar waith i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn cynnig ethos cynnes a chyfeillgar lle mae croeso i bawb. Mae'n gymuned gynhwysol lle mae'r holl blant yn gallu cael mynediad cyfartal i'r profiadau dysgu a ddarperir.

Mae'r lleoliad yn darparu ystod eang o adnoddau difyr ac amrywiol sy'n bodloni gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r gofod dysgu sydd ar gael, dan do a thu allan. Mae'r ardal dan do yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn briodol. Mae'n ddeniadol, yn groesawgar ac wedi'i drefnu'n dda, gan gynnwys arddangosfeydd buddiol o waith y plant sy'n cynnwys esboniadau o rai o'r medrau y maent yn eu datblygu. Mae gan y lleoliad ddwy ardal awyr agored y mae ymarferwyr yn eu defnyddio'n dda i feithrin medrau'r plant yn llwyddiannus. Mae'r ardal awyr agored wedi'i threfnu'n dda ac mae'n cynnwys llawer o adnoddau i ddiddori'r plant. Fodd bynnag, nid oes cyfle i blant dyfu eu planhigion eu hunain. Cafodd mater sy'n cael effaith anffafriol ar les plant ei dynnu i sylw'r pwyllgor rheoli ar adeg yr arolygiad.

Yn dilyn argymhelliad yn yr adroddiad arolygu diwethaf, mae'r lleoliad bellach yn gwneud mwy o ddefnydd o'r amgylchedd lleol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn mynd â grwpiau bach o blant ar ymweliadau gwerth chweil â'r castell lleol, y llyfrgell a'r siop anifeiliaid anwes. O ganlyniad, mae'r plant yn dod yn fwy ymwybodol o'u hardal leol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinydd y lleoliad a'i dirprwy yn rheoli'r lleoliad yn dda. Maent yn rhannu cyfrifoldebau'n effeithiol ac yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.. Mae'r arweinydd yn cyfeirio ymarferwyr yn briodol i sicrhau bod y lleoliad yn gweithredu'n hwylus. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus fel tîm ac yn cefnogi ei gilydd i sicrhau eu bod yn gofalu am y plant yn dda a bod plant yn gwneud cynnydd addas yn y lleoliad.

Mae'r pwyllgor rheoli'n cyfarfod yn rheolaidd ac yn cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol. Mae'r arweinydd a'i dirprwy yn meithrin perthnasoedd cadarn gyda rhieni a gofalwyr. O ganlyniad, mae rhieni a gofalwyr yn hapus i ddod â'u plant i'r lleoliad ac yn teimlo'n hyderus y bydd yr arweinydd yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon sydd ganddynt yn briodol.

Mae prosesau priodol ar waith i reoli perfformiad ymarferwyr. Mae'r pwyllgor a'r arweinydd yn defnyddio'r rhain i nodi anghenion hyfforddi a sicrhau lles yr holl aelodau staff. Mae hyn yn galluogi ymarferwyr i ymgymryd â'u gwaith yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn talu sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac mae ffocws effeithiol ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd boddhaol o amrywiaeth o dystiolaeth i arfarnu'r hyn y maent yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Nodant flaenoriaethau addas i weithio tuag atynt ac maent yn cynllunio sut i gyflawni'r rhain yn briodol.. Maent yn myfyrio ar eu hymarfer yn ystod cyfarfodydd rheolaidd ac yn gwneud newidiadau i wella'r ddarpariaeth ac i adlewyrchu diddordebau plant. Er enghraifft, yn ddiweddar, rhannodd ymarferwyr y plant yn ddau grŵp llai ar gyfer 'Amser Cylch' er mwyn sicrhau eu bod i gyd yn cael cyfle i gyfrannu. Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n galed tuag at gyflawni'r deilliannau gorau i'r plant.

Maent yn agored i syniadau newydd ac yn ymateb yn gadarnhaol i gyngor gan yr awdurdod lleol. Maent wedi croesawu adroddiadau monitro'r awdurdod lleol ac wedi defnyddio'r wybodaeth o'r rhain yn llwyddiannus i'w helpu i wella'u darpariaeth. Mae hyn wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol yn eu helpu i ddatblygu eu hamgylchedd dysgu dan do o ansawdd da.

Mae arweinydd y lleoliad wedi gwneud defnydd effeithiol o ymweliadau â lleoliadau eraill i weld arfer dda. Mae syniadau o'r ymweliadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad plant, yn enwedig o ran datblygu eu medrau cymdeithasol ac annibynnol.

Mae'r lleoliad wedi gwneud cynnydd boddhaol tuag at fodloni'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod dda o bartneriaethau effeithiol. Mae'r partneriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles plant ac ar ansawdd y ddarpariaeth.

Mae partneriaethau â rhieni yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn rhoi gwybodaeth dda iddynt am brofiadau a chynnydd eu plant trwy gylchlythyr rheolaidd, hysbysiadau, arwyddion a ffotograffau yn y fynedfa. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r cyfle rheolaidd i rannu gwybodaeth yn anffurfiol am eu plant wrth iddynt gyrraedd a gadael y lleoliad.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau gwerthfawr ag ysgol gynradd leol. Mae staff addysgu'n ymweld â'r lleoliad bob haf i ddod i adnabod y plant cyn iddynt symud ymlaen i'r ysgol. Mae hyn yn hybu pontio llwyddiannus i'r plant o'r lleoliad i'r cam nesaf yn eu haddysg. Yn ddiweddar, mae uwch athrawes o'r ysgol wedi ymgymryd â rôl athrawes cyswllt gan gynnig cyfleoedd pellach i ymarferwyr derbyn cyngor defnyddiol.

Mae’r bartneriaeth adeiladol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol wedi arwain at welliannau sylweddol dros gyfnod.  Mae’r hyfforddiant a ddarperir gan yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin wedi arwain at welliannau mewn safonau a darpariaeth.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae’r lleoliad yn defnyddio staff ac adnoddau yn dda i helpu i gyflwyno’r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn manteisio ar ystod effeithiol o hyfforddiant addas i gefnogi eu datblygiad proffesiynol.  Maent yn rhoi cyngor a gawsant o hyfforddiant ar waith i wella deilliannau i blant.

Mae gan yr arweinydd a swyddogion y pwyllgor presennol ddealltwriaeth glir o’r gyllideb ac maent yn blaenoriaethu penderfyniadau gwario yn unol ag anghenion y lleoliad.  Mae ganddynt brosesau effeithiol ar gyfer adolygu gwariant yn barhaus.

O ystyried y deilliannau cadarnhaol a gyflawnir gan blant, mae’r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Sheila Margaret Birkhead | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |